

GWEINIDOGION CYMRU

MESURAU GWELLA CORIDOR YR M4 Y Ffordd Fynediad I'r Gwaith Dur: CYFNOD 2

ASESIAD O'R EFFAITH AMGYLCHEDDOL HYSBYSIAD AM DDATGANIAD AMGYLCHEDDOL YN UNOL AG ADRAN 105B O Ddeddf Priffyrdd 1980 (fel y'i diwygiwyd)

ASESIAD O'R GOBLYGIADAU AR GYFER SAFLEOEDD EWROPEAIDD HYSBYSIAD AM DDATGANIAD I LYWIO ASESIAD PRIODOL YN UNOL AG ADRAN 61 O REOLIADAU CADWRAETH CYNEFINOEDD A RHYWOGAETHAU 2010

Mae Gweinidogion Cymru wedi penderfynu mynd ymlaen â'r prosiect uchod ar gyfer gwelliant 'ar linell' i 4.7 km o'r gerbyttfordd ddeuol bresennol yn Llanwern, Casnewydd, De Cymru (Cyfeirnod Grid ST 375 862) drwy safle'r gwaith dur, i godi'r ffordd (a elwir Queensway) i safon priffordd gyhoeddus, gan gynnwys unrhyw welliannau 'ar linell' angenrheidiol o ran diogelwch a'r amgylchedd i 2.9km o'r ffordd bresennol o borth dwyreiniol y gwaith dur i Gyffordd 23A yr M4. Penderfynodd Gweinidogion Cymru fod y prosiect hwn yn brosiect perthnasol sy'n ddarostyngedig i Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol yn unol â Rhan VA o Ddeddf Priffyrdd 1980 (fel y'i diwygiwyd) a Chyfarwyddeb 85/337/EEC y Cyngor Ewropeaidd (fel y'i diwygiwyd).

Mae'r Prosiect hefyd yn ddarostyngedig i Asesiad o'r Goblygiadau ar gyfer Safleoedd Ewropeaidd (AGSE) o dan Adran 61 o Reoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau 2010 ac Erthygl 6(3) o Gyfarwyddeb Cynefinoedd 92/43/EC.

Yn unol â'r penderfyniad uchod paratowyd Datganiad Amgylcheddol (DA) sy'n nodi'r materion amgylcheddol allweddol sy'n gysylltiedig â'r prosiect. Mae'r DA hefyd yn rhoi manylion am y mesurau lliniaru sydd i'w darparu er mwyn osgoi, lleihau neu wrthbwysio

effeithiau anffafriol y prosiect. Ar yr un pryd, paratowyd hefyd Ddatganiad i Lywio Asesiad Priodol (DiLAP) o dan reoliad 48 o Reoliadau Cadwraeth (Cynefinoedd Naturiol &c.) 1994.

Cyhoeddwyd y DA, crynodeb annhechnegol o'r DA a'r DiLAP ar 25 Awst 2011, adnewyd copïau ohonynt yn y manau a restrir isod tan 6 Hydref 2011 a gwahoddwyd sylwadau. Cafwyd ymatebion ac ystyriwyd yr ymatebion hynny gan Weinidogion Cymru cyn cyrraedd eu penderfyniad i fynd ymlaen â'r gwelliant.

Gellir archwilio copïau o'r DA, y crynodeb annhechnegol, y DiLAP a Llythyr Penderfyniad Gweinidogion Cymru yn ystod oriau swyddfa / agor o 21 Rhagfyr 2011 tan 1 Chwefror 2012 neu o fewn 6 wythnos ar ôl dyddiad cyhoeddi'r hysbysiad hwn, pa un bynnag o'r cyfnodau ddaw i ben ddiwethaf, yn y manau canlynol:

Llyfrgell Caldicot, Woodstock Way, Caldicot
NP26 5DB;

Cyngor Dinas Casnewydd, Y Ganolfan
Ddinesig, Casnewydd NP20 4UR;

Cyngor Sir Fynwy, Neuadd y Sir, Cwmbrân
NP44 2XH;

Swyddfa Cyngor Cymuned Magwyr gyda
Gwndy, Swyddfa Heddlu Magwyr, Main Road,
Gwndy, Caldicot NP26 3EH; neu

Llywodraeth Cymru, Trafnidiaeth, Y Gangen
Orchymynion, Parc Cathays, Caerdydd CF10
3NQ.

Caiff unrhyw berson a dramgwyddir gan benderfyniad Gweinidogion Cymru i fynd ymlaen â'r gwelliant hwn, y gwnaed y DA ynglŷn ag ef, ac sy'n dymuno herio dilysrwydd y penderfyniad hwnnw ar y sail:

- a) nad yw o fewn pwerau Deddf Prifffyrdd 1980 neu
- b) na chydymffurfiwyd ag unrhyw un o ofynion y Ddeddf honno neu reoliadau a wnaed odani,

o fewn 6 wythnos ar ôl dyddiad cyhoeddi'r hysbysiad hwn, wneud cais i'r Uchel Lys am

atal dros dro neu ddiddymu'r penderfyniad i
fynd ymlaen.

Gellir gweld copi o benderfyniad Gweinidogion
Cymru yn:

<http://cymru.gov.uk/topics/transport/roads/schemes/reports/?lang=cy>

**Gellir cael copi o'r hysbysiad hwn mewn
print brasach gan Lywodraeth Cymru,
Trafnidiaeth, Y Gangen Orchmynion,
Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.**

M D BURNELL
Y Gangen Orchmynion
Trafnidiaeth
Llywodraeth Cymru
Ar ran Gweinidogion Cymru